10B | Chwarel Manod i Benmachno

Gyferbyn â'r mynedfa i Chwarel Manod, trowch i'r dde a dilyn lôn lydan sy'n mynd heibio tri polyn, adfeilion gorsaf radio cyn disgyn i lawr i Ddrumffordd Rhiwbach. Trowch i'r dde ar hyd y ddrumffordd hon i gyraedd inclein serth – tramffordd serth a oedd yn cael ei gweithredu â gwifrau a winshys er mwyn cario wagenni llechi i fyny ac i lawr ochr y bryn.

Ewch i lawr yr inclein, gan wyro ychydig i'r chwith i gyfeiriad pwll wrth i'r llwybr adael yr inclein. Ewch dros y gamfa ysgol neu drwy'r giât. Dilynwch y lôn i'r dde o'r ffens. Mae'r lôn yn gwryo i'r dde gan fynd rhwng dau adeilad adfeiliedig cyn disgyn i lawr lethr serth rhwng y tomennydd llechi. Ewch yn eich blaen ar hyd y lôn lydan hon, drwy'r coed, heibio'r argae ar y dde nes i chi gyrraedd ardal wastad lle mae adfail hen gwt. Cadwch ar y dde ar hyd y lôn i ddilyn i Gwm Penmachno, gan adael y chwarel ger y ffordd.

O giât y chwarel a giât mochyn, dilynwch y ffordd yn syth ymlaen am tua 770m nes i chi gyrraedd hen eglwys â gardd eang sydd wedi ei throsi yn dŷ o'r enw Trevallen.

Cyn i chi gyrraedd y tŷ, trowch i'r chwith i fyny lôn ac i mewn i'r cae. Dilynwch y ffens a'r nant at bont droed i lawr y llethr ar eich chwith. Croeswch y bont a dilynwch lwybr aneglur sy'n arwain at gamfa step yng nghornel y goedwig.

Dilynnwch llwybr trwy'r goedwig, heibio adfeilion Hafod Fraith Uchaf. Pan fyddwch yn cyrraedd lôn goedwig, trowch i'r dde gan ei dilyn nes byddwch yn cyrraedd y fan lle mae sawl ffordd yn croesi. Ewch yn syth ymlaen, gan anwybyddu'r ffyrdd i'r dde a'r chwith, ac ewch yn eich blaen, gan gadw i'r dde, i gyrraedd y ffordd ar ddechrau Llwybr Beiciau Mynydd Penmachno. Trowch i'r chwith ar hyd y ffordd am gyfnod byr ac yna ewch i lawr lôn laswelltog ar y dde, gan fynd heibio'r cerrig llam dros yr afon.

Ewch ymlaen ar hyd y lôn laswelltog. Bydd y lôn yn troi'n stryd darmac, White Street. Yn y fan lle mae'r ffordd yn fforchio, ewch i'r chwith nes i chi gyrraedd Sgwâr Gethin y tu allan i dafarn yr Eagles (Tŷ Uchaf).



Uchod: Chwarel Rhiwbach
Dde: Ystafell Dreftadaeth Cwm

Uchod: Chwarel Rhiw Fachno

ARIANNU: Magnox; Cronfa CAE Parc Cenedlaethol Eryri; Sefydliad Foyle; Sefydliad Garfield Weston; Ymddiriedolaeth Oakdale; Sefydliad Cymunedol Cymru; HF Holidays; Horizon; First Hydro; Ymddiriedolaeth Laspen; Cyngor Tref Bethesda; Cyngor Tref Ffestiniog; Elusen Ogwen; Llechi Cymru; Menter Môn; PAVO; Ymddiriedolaeth Ninevah; Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn-Jones; Mantell Gwynedd; Sefydliad Ashley; Rehau Plastics; Sefydliad Blakemore; Dŵr Cymru.

Mae Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri yn Elusen Gofrestredig, Rhif 1182188.